

Cymraeg a Saesneg

CYFNOD ALLWEDDOL 2

LLAFAREDD

- Cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio iaith drwy dynnu ar eu gwybodaeth o Saesneg (gan gynnwys Saesneg safonol), Cymraeg ac ieithoedd eraill.
- Cyfathrebu at amrywiaeth o ddibenion, e.e. sôn a chyflwyno gwybodaeth, cyfarwyddo, dadlau ac esbonio safbwynt, trafod mater, perswadio, cwestiynu a thrafod dehongliadau, cyfleu teimladau.
- Siarad a gwrandao yn unigol, mewn parau, mewn grwpiau ac fel aelodau o'r dosbarth
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno syniadau, gan gynnwys TGCh, dulliau dramatig, trafod a dadlau
- Cyflwyno, siarad a pherfformio mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys athrawon, cyfoedion, dysgwyr iau/hŷn, oedolion cyfarwydd ac anghyfarwydd
- Defnyddio geirfa briodol sy'n addas ar gyfer y sefyllfa neu ddiben

DARLLEN

- Darllen at wahanol ddibenion, e.e. pleser personol; adfer, crynhoi a chyfosod gwybodaeth allweddol; dehongli a chyfuno gwybodaeth; gwirio gwybodaeth; dyfnhau dealltwriaeth drwy ailddarllen; adnabod dyfeisiau iaith a ddefnyddir gan yr awdur er mwyn dadansoddi diben; nodi ffyrdd amgen o ddehongli testun

YSGRIFENNU

- Ysgrifennu mewn ystod o destunau parhaus neu bytiog mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. llythyrau, dyddiaduron, erthyglau, storïau, adroddiadau, areithiau, dramâu byrion a sgrïptiau, taflenni, hysbysebion, posteri, tudalennau ar y we, holiaduron, adolygiadau, ymson

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Dylai dysgwyr gael eu haddysgu i ystyried y math o wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi eu tasgau a'u gweithgareddau a sut gallen nhw ddod o hyd i'r wybodaeth honno; defnyddio ystod gynyddol o offer ac adnoddau TGCh i ganfod, prosesu a throsglwyddo gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau diogel ac addas; datblygu a chyfleu eu syniadau mewn ffyrdd priodol gan ddatblygu ymdeimlad o ddiben a chynulleidfa.

Mathemateg

CYFNOD ALLWEDDOL 2 UCHAF

Defnyddio Sgiliau Rhif – Rheoli Arian

Blwyddyn 5 yn benodol

- Archebu a chymharu cost eitemau gwerth hyd at £1,000
- Adio a thynnu cyfansymiau llai na £100 gan ddefnyddio'r nodiant cywir, e.e. £28.18 + £33.45
- Cynllunio ac olrhain arian a chynilion drwy gadw cofnodion cywir

Blwyddyn 6 yn benodol

- Defnyddio'r term elw a cholled mewn gweithgareddau prynu a gwerthu a gwneud cyfrifiadau ar gyfer hyn
- Cymharu prisiau a deall beth sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Datblygu ffyrdd o feddwl - dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- Ffurio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus
- Defnyddio technegau priodol er mwyn myfyrio'n bersonol.

Datblygu ffyrdd o gyfathrebu - dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- Wrando'n ofalus, cwestiynu ac ymateb i eraill
- Mynegi eu barn a'u syniadau yn hyderus drwy ddefnyddio ystod o ddulliau priodol
- Cyfrannu at drafodaethau dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon.

Datblygu TGCh - dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- Ganfod a datblygu gwybodaeth a syniadau
- Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau
- Defnyddio TGCh yn ddiogel gyda chymorth ac arweiniad priodol.

Datblygu sgiliau rhifedd - dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- Ddewis data o wybodaeth a gyflwynir mewn ystod o ffyrdd rhifol a graffigol
- Casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys holiaduron syml neu gronfeydd data er mwyn deall materion sy'n ymwneud ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes - dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- Fwynhau a gwerthfawrogi dysgu a chyraeddiadau
- Cymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu
- Deall yr amrywiaeth o swyddi a wneir gan bobl yn eu cymuned
- Gwybod bod arian yn cael ei ennill drwy waith ac yn fodd o brynu nwyddau a gwasanaethau

Gweithio gydag eraill - dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- Gydweithio i ddatrys problemau

Gwella eu dysgu eu hunain - dylai dysgwyr gael cyfleoedd i:

- Fyfyrio ynghylch cynnydd, nodi cryfderau a gwendidau a gosod targedau ar gyfer gwella
- Cymhwyso eu dysgu mewn sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol
- Datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd.

Dylunio a thechnoleg

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Dylai dysgwyr gael eu haddysgu i ddylunio a gwneud cynhyrchion syml drwy gyfuno eu sgiliau dylunio a chreu â gwybodaeth a dealltwriaeth mewn cyd-destunau sy'n cefnogi eu gwaith mewn pynciau eraill a'u helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd sydd wedi'i greu. Dylen nhw gael eu hannog i fod yn greadigol ac yn arloesol wrth ddylunio a chreu, yn ogystal â bod yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a'r amgylchedd yn yr unfed ganrif ar hugain.